CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor • 5 Stryd Fawr • Blaenau Ffestiniog • Gwynedd • LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru

AGENDA Cyfarfod Arferol

• 15/06/2017 • 19:00 • Siambr y Cyngor

DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1 (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]

YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG YN SIAMBR Y CYNGOR, 5 STRYD FAWR, BLAENAU FFESTINIOG, GWYNEDD LL41 3ES NOS IAU 58FEG O FEHEFIN 2017 AM 7.00 YR HWYR.

AT GADEIRYDD A CHYNGHORWYR
CYNGOR TREF FFESTINIOG

FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG 15FED O FEHEFIN 2016

MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO

1. Derbyn Ymddiheuriadau

2. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd gan Gynghorwyr

3. Datganiad o Ddiddordeb - Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol ar gael yn y cyfarfod

4. Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. **Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

5. GISDA
Sian E Tomos a Ceri Cunnington yn trafod datblygiadau diweddar

6. Materion i'r Heddlu

7. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 18fed o Fai 2017

8. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arferol 18fed o Fai 2017

9. * Cyfrifon i'w talu

10. * Cais Ariannol
Blaenau Bendigedig

11. Cyfrifon 2016 – 2017
Trafod cyfrifon 2016/2017 y Cyngor Tref wedi iddynt gael eu archwilio gan yr Archwilydd Mewnol.

12. Cyfrifon 2016 – 2017
Derbyn cyfrifon 2016/2017 y Cyngor Tref ac unrhyw sylwadau

13. * Ward Bowydd a Rhiw
Cais am Gyfetholiad

14. * Sedd Wag
Cais am Gyfetholiad

15. * Sedd Wag
Cais am Gyfetholiad

16. Ceisiadau Cynllunio
Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

17. * Camerau CC
Angen uchwraddio recorders ein offer ccc, trafod pris i wneud hyn.

18. Rhybudd o Gynigiad gan y Cynghorydd Rory Francis
'Rwyf yn cynnig y dylai'r Cyngor ofyn am gyfarfod safle gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd a Chynghorwyr lleol wrth Ysgol Maenofferen i drafod diogelwch ar y ffordd tra bod plant yn cael eu cludo i'r ysgol ac yn ôl. Yn ystod yr Arolwg diweddar, fe leisiodd Estyn bryder am ddiogelwch wrth i'r plant gael eu hebrwng o'r ysgol, ac mae'r ysgol wedi mabwysiadu trefn newydd. Ond mae pryderon yn parhau fod cymaint o drafnidiaeth a phobl yn symud mewn lle mor gyfyng ac mae'r rhieni a staff yn awyddus i drafod y gwahanol opsiynau i leihau'r perygl i'r plant.'

Datblygiadau yn yr ardal

19. Iechyd.

Materion yn codi

20. Partneriaeth y Parc

21. Caeau Chwarae

a) Trafod adroddiad arolwg misol y caeau chwarae gan yr archwiliwr

b) Y Parc –
Trafod darfod y gwaith angenrheidiol cyn ddechrau gwyliau'r ysgol

c) Biniau newydd
Mae 5 bin newydd gyda logo'r Cyngor Tref arnynt wedi eu harchebu gan gwmi Broxap – trafod eu lleoli yn y Parc yn lle'r hen finiau.

22. Parc Cenedlaethol Eryri
Coed afal am ddim

23. Y Dref Werdd
Derbyn y bin ar gyfer tir cymunedol Yn Hafan Deg, Tanygrisiau fel rhodd i'r Cyngor Tref a chadarnhau trefniadau ar gyfer ei wagio.

24. Plantlife
Prosiect newydd sy'n cael ei gynllunio yng ngogledd a chanolbarth Cymru yn canolbwyntio ar goetiroedd derw yr Iwerydd. Mae'r coetiroedd yn llawn o fywyd gwyllt, gan gynnwys cennau a mwsoglau yn ogystal ag adar a glöynnod byw, gyda rhai rhywogaethau yn bresennol yng Nghymru yn unig. Nod y prosiect yw helpu i adfer rhai o'r coetiroedd hyn a chefnogi gwell rheolaeth ohonynt yn ogystal â helpu pobl i archwilio, dathlu ac adrodd hanes y lleoedd arbennig hyn. Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu gan Plantlife Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, RSPB a Coed Cadw.

25. Cyngor Gwynedd
Rhaglen Waith mis Mehefin

Pob ffordd	Ffestiniog	Torri gwair
Di-ddosbarth	Ffordd Bryn Rhug	Arwisgo
Di-ddosbarth	Ffordd Teiliau Mawr	Arwisgo
Di-ddosbarth	Ffordd Chwarel Bwlch	Arwisgo

Materion er gwybodaeth

26. Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol

27. Newyddion o Gyngor Gwynedd

Gohebiaeth

28. Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy
Gwybodaeth Cludiant Cyhoeddus

*Amgaeaf gopi

Ann M Coxon
Clerc y Dref
7fed Mehefin 2017